Sgoteg

Iaith Germanaidd a siaredir yn ne'r Alban yw'r **Sgoteg** neu **Lallans**. Mae Sgoteg yn perthyn i'r Saesneg, ac fe'i hystyrir yn dafodiaith Saesneg gan rai, er bod Llywodraeth yr Alban a Siarter Ieithoedd Lleiafrifol Ewrop yn ei chyfrif yn iaith leiafrifol draddodiadol. Mae'n dal i gael ei siarad yn nwyrain a de'r Alban.

Ceir enghraifft gyfoes o'r iaith Sgoteg yn y gân brotest o'r 1960au gan Hamish Henderson, Freedom Come-All-Ye. Wrth ddarllen geiriau'r gân gellir gweld y tebygrwydd a'r gwahaniaeth rhwng Saesneg.

Dolen allanol

Lallans - 'Cymdeithas yr Iaith' Sgoteg (http://www.lallans.co.uk)

Wedi dod o "https://cy.wikipedia.org/w/index.php?title=Sgoteg&oldid=6532407"

Newidiwyd y dudalen hon ddiwethaf ar 28 Hydref 2018, am 00:28.

Mae testun y dudalen ar gael dan drwydded Creative Commons Attribution-ShareAlike; gall fod telerau ychwanegol perthnasol. Gweler Telerau Defnyddio'r Drwydded am fanylion pellach.